**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA JJ 1954/21

Cadeiryddion Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Prif Weithredwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
Cartrefi Cymunedol Cymru
Cyfarwyddwyr Tai Awdurdodau Tai Lleol
Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Ffederasiwn Adeiladwyr Tai
TPAS Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

17 Awst 2021

Annwyl Gydweithwyr,

**Lansio'r safon newydd ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy yng Nghymru**

Rwyf wrth fy modd yn cael cyhoeddi bod ein safon newydd, sy'n disodli Gofynion Ansawdd Datblygu 2005, wedi'i lansio. Mae'r Gofynion Ansawdd Datblygu wedi bod yn safon meincnod ar gyfer cartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru dros yr 16 mlynedd diwethaf. Mae llawer wedi newid ers hynny, ac mae angen i'r safon ymateb i'r heriau newydd yn y ffordd rydym yn cynllunio ac yn adeiladu cartrefi.

Yn 2019, gwahoddais y panel annibynnol a oedd yn arwain yr Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy i wneud argymhellion ar gyfer safon newydd bosibl. Derbyniais eu hargymhelliad i ddatblygu safonau syml cyfunol newydd ar gyfer cartrefi newydd a gaiff gymorth grant a chartrefi fforddiadwy a ddarperir drwy gytundebau cynllunio (o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) ac amodau cynllunio.[i]

**Cefnogaeth gyffredinol i'r safon newydd yn yr Ymgynghoriad Ffurfiol**
Y llynedd, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol am ddeuddeg wythnos ar safon newydd arfaethedig o'r enw "Mannau a Chartrefi Prydferth". Roedd y mwyafrif yn cefnogi'r cynigion, a mynegwyd diddordeb mawr ym materion hygyrchedd (Lifetime Homes), gwagle a chynllun carbon isel.  Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad i'w weld yn y ddolen ganlynol:

https://llyw.cymru/safonau-ansawdd-gorfodol-ar-gyfer-cartrefi-newydd

**Cyhoeddir y safon newydd yn ffurfiol ar 17 Awst 2021**
Ar ôl rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ymatebion, rwyf wrth fy modd yn cael rhoi gwybod ichi y bydd y safon newydd, a ailenwir yn "Ofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 – Mannau a Chartrefi Prydferth" yn cael ei chyhoeddi, ac mae i'w gweld yn y ddolen ganlynol:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

https://llyw.cymru/gofynion-ansawdd-datblygu-ar-gyfer-cymdeithasau-tai-ac-awdurdodau-lleol-2021

Mae safon newydd 2021 yn pennu gofynion ansawdd newydd ar gyfer tai cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar hyblygrwydd, gwagle a chynaliadwyedd. Mae'r llywodraeth hon yn benderfynol o ymateb i her newid hinsawdd. Mae'r safon yn cynnwys gofynion mentrus newydd o ran cynllun carbon isel yn ogystal â thanwydd nad yw'n danwydd ffosil ar gyfer systemau gwresogi a dŵr poeth mewn cartrefi.

**Rhoi'r safon ar waith**

Caiff y safon ei rhoi ar waith yn llawn ym mhob cynllun tai fforddiadwy a gyllidir yn gyhoeddus, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru fel "cysyniad" at ddibenion craffu technegol o 1 Hydref 2021.

Dim ond mewn perthynas â chytundebau a wneir ar ôl 1 Hydref 2021 y bydd gofyn i gartrefi fforddiadwy newydd a ddarperir drwy gytundebau cynllunio (o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref) ac amodau cynllunio fodloni gofynion gwagle Atodiad A ac Atodiad B. Bydd yr un gofynion gwagle hyn yn berthnasol hefyd i Cymorth i Brynu Cymru os bydd y cynllun yn parhau y tu hwnt i 2023.

Mae cynyddu'r cyflenwad tai yn un o brif uchelgeisiau Llywodraeth Cymru. Drwy "Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021", mae'r sector landlordiaid cymdeithasol yn arwain y ffordd, bellach, o ran y gofyniad i gartrefi newydd a gyllidir ag arian cyhoeddus fod o ansawdd uchel, yn brydferth ac yn garbon-isel. Nod y safon hon yw sicrhau'r deilliannau mwyaf posibl yn gymunedol, yn economaidd ac o ran lles, a chefnogi egwyddorion cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Yr amcan yw cymhwyso'r safon i bob cartref newydd a adeiledir yng Nghymru yn y dyfodol.

Er mwyn i'r broses o ddechrau defnyddio'r gofynion newydd fod mor llyfn â phosibl, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i'ch gwahodd i weithdy ar 16 Medi 2021, lle caiff y safon newydd ei thrafod a lle bydd cyfle i holi cwestiynau, er mwyn ichi fod yn glir ynghylch sut y caiff y safon newydd ei gweithredu. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran cartrefi newydd a adeiledir yng Nghymru yn y dyfodol, neu ynghylch sut y bydd y safon yn gweithio'n ymarferol, cysylltwch â'm swyddogion yn SHGSchemeDelivery@gov.wales

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

[i] Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy 2019